(a) rhoi cyfle i'r awdurdod rhestredig y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef wneud sylwadau ar unrhyw honiadau yn y gŵyn;

(b) rhoi i unrhyw berson arall yr honnir yn y gŵyn ei fod wedi cymryd y camau gweithredu yr achwynir amdanynt, neu wedi awdurdodi'r camau gweithredu yr achwynir amdanynt, gyfle i wneud sylwadau ar unrhyw honiadau sy'n ymwneud â'r person hwnnw.

(2) Os yw'r Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad o dan adran 4, rhaid i'r Ombwdsmon—

(a) paratoi cynnig ymchwilio, a

(b) cyflwyno'r cynnig ymchwilio—

(i) i'r awdurdod rhestredig yr ymchwilir iddo, a

(ii) i unrhyw berson, heblaw'r awdurdod rhestredig, y'i hadwaenir mewn modd negyddol yn y cynnig ymchwilio.

(3) Ond os yw'r Ombwdsmon—

(a) wedi cychwyn ymchwiliad i fater o dan adran 3 neu 4 (yn y naill achos a'r llall, "yr ymchwiliad gwreiddiol"), a

(b) wedi cychwyn ymchwiliad arall i fater ("*yr ymchwiliad cysylltiedig*") o dan adran 4 sy'n ymwneud â'r ymchwiliad gwreiddiol,

nid yw is-adran (2) yn gymwys i'r ymchwiliad cysylltiedig.

(4) Mae ymchwiliad yn ymwneud ag ymchwiliad gwreiddiol os oes gan y mater yr ymchwilir iddo yn yr ymchwiliad cysylltiedig gysylltiad sylweddol â'r mater yr ymchwilir iddo yn yr ymchwiliad gwreiddiol.

(5) Pan fo'r Ombwdsmon yn paratoi cynnig ymchwilio mewn cysylltiad â mater, rhaid i'r Ombwdsmon—

(a) rhoi cyfle i'r awdurdod rhestredig yr ymchwilir iddo wneud sylwadau ar y cynnig ymchwilio;

(b) rhoi cyfle i unrhyw berson, heblaw'r awdurdod rhestredig, y'i hadwaenir mewn modd negyddol yn y cynnig ymchwilio, wneud sylwadau ar y cynnig ymchwilio (i'r graddau y mae'r cynnig ymchwilio yn ymwneud â'r person hwnnw).

(6) Pan fo'r Ombwdsmon wedi cychwyn ymchwiliad cysylltiedig i fater a phan nad oes cynnig ymchwilio wedi'i baratoi yn rhinwedd is-adran (3), rhaid i'r Ombwdsmon—

(a) rhoi cyfle i'r awdurdod rhestredig wneud sylwadau ar yr ymchwiliad cysylltiedig;

(b) rhoi cyfle i unrhyw berson, heblaw'r awdurdod rhestredig, y'i hadwaenir gan yr Ombwdsmon mewn modd negyddol mewn perthynas â'r ymchwiliad cysylltiedig, i wneud sylwadau ynghylch yr ymchwiliad cysylltiedig (i'r graddau y mae'r cynnig ymchwilio yn ymwneud â'r person hwnnw).

(7) Rhaid i gynnig ymchwilio nodi—

(a) y rhesymau dros yr ymchwiliad, a

(b) y modd y bodlonwyd y meini prawf a gyhoeddwyd o dan adran 5.

(8) Rhaid i ymchwiliad gael ei gynnal yn breifat.

(9) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill yr adran hon, y weithdrefn ar gyfer cynnal ymchwiliad o dan adran 3 neu 4 yw'r un sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon yn amgylchiadau'r achos.

(5) Caiff y costau y cyfeirir atynt yn is-adran (4) gynnwys (ond nid ydynt yn gyfyngedig i) y costau o gael cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

(6) Rhaid i hysbysiad adennill costau—

(a) nodi ar ba sail y cyflwynir yr hysbysiad, gan gynnwys manylion y rhwystr neu'r weithred sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn bodloni'r amod yn is-adran (2),

(b) pennu'r swm y mae'n rhaid ei dalu i'r Ombwdsmon, ynghyd â manylion y swm hwnnw,

(c) pennu—

(i) y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid talu, a

(ii) sut y caniateir talu, a

(d) egluro'r hawl i apelio yn is-adran (9).

(7) Rhaid i'r dyddiad talu a bennir o dan is-adran (6)(c) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau yn hwyrach na'r dyddiad y caiff yr hysbysiad adennill costau ei gyflwyno i'r darparwr.

(8) Rhaid i'r darparwr dalu i'r Ombwdsmon y swm a bennir yn yr hysbysiad adennill costau erbyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad hwnnw (ond mae hyn yn ddarostyngedig i weddill y darpariaethau yn yr adran hon).

(9) Caiff y darparwr apelio i'r llys ynadon yn erbyn hysbysiad adennill costau cyn pen 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad i'r darparwr; ac os bydd y darparwr yn gwneud hynny, nid yw is-adran (8) yn gymwys (ond gweler is-adrannau (15) ac (16)).

(10) Mae apêl i fod ar ffurf cwyn am orchymyn bod yr hysbysiad i gael ei ddileu neu ei amrywio, ac yn unol â Deddf Llys Ynadon 1980 (p.43).

(11) At ddiben y terfyn amser ar gyfer gwneud apêl, mae gwneud cwyn i gael ei drin fel gwneud apêl.

(12) Y sail dros apêl yw bod penderfyniad yr Ombwdsmon i ddyroddi'r hysbysiad adennill costau—

(a) yn seiliedig ar wall ffeithiol,

(b) yn anghywir mewn cyfraith, neu

(c) yn afresymol am unrhyw reswm.

(13) Ar apêl, caiff y llys ynadon—

(a) cadarnhau, dileu neu amrywio'r hysbysiad adennill costau, a

(b) gwneud y cyfryw orchymyn o ran costau sy'n briodol ym marn y llys ynadon.

(14) Pan fo llys ynadon, ar apêl, yn dileu neu'n amrywio'r hysbysiad adennill costau, caiff orchymyn yr Ombwdsmon i ddigolledu'r darparwr am y golled a ddioddefodd o ganlyniad i gyflwyno'r hysbysiad.

(15) Pan fo llys ynadon, ar apêl, yn cadarnhau'r hysbysiad adennill costau (gydag amrywiad neu heb amrywiad), rhaid i'r darparwr dalu'r swm sy'n daladwy yn rhinwedd yr hysbysiad cyn pen 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y penderfynir yn derfynol ar yr apêl.

(16) Pan fo apêl a wnaed o dan yr adran hon yn cael ei thynnu'n ôl, rhaid i'r darparwr dalu'r swm a bennir yn yr hysbysiad adennill costau cyn pen 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y caiff yr apêl ei thynnu'n ôl.

Wales Act 2005" rhodder "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 and the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".

### *Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42)*

11 Yn adran 5 (dynodiad ac adroddiadau'r swyddog monitro)—

(a) yn is-adran (2)(c), ar y diwedd mewnosoder "or the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019";

(b) yn is-adran (2AA), ar ôl "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005" mewnosoder "or the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".

12 Yn adran 5A (adroddiadau'r swyddog monitro – awdurdodau lleol yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth)—

(a) yn is-adran (3)(c), ar y diwedd mewnosoder "or the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019";

(b) yn is-adran (4A), ar ôl "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005" mewnosoder "or the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".

### *Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p.9)*

13 Yn Atodlen 1B (penderfyniadau ar adolygiadau gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru), ym mharagraff 7, ar ôl "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005" mewnosoder "and the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".

14 Yn Atodlen 3 (penderfynu ar apelau penodol gan berson a benodir gan Ysgrifennydd Gwladol), ym mharagraff 7(3), ar ôl "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005" mewnosoder "and the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".

### *Deddf Comisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd 1993 (p.46)*

15 Yn adran 18 (ymgynghori yn ystod ymchwiliadau), yn is-adran (1)(ba), ar y diwedd mewnosoder "or the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".

### *Deddf Tai 1996 (p.52)*

16 Yn adran 50C (seiliau ar gyfer rhoi hysbysiad), yn is-adran (10), ar y diwedd mewnosoder "or section 23 of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".

17 Yn adran 51 (cynlluniau ar gyfer ymchwilio i gwynion), yn is-adran (7), yn lle "section 41 of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005" rhodder "section 78 of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".

### *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (p.36)*

18 Yn adran 76 (datgelu gwybodaeth rhwng Comisiynydd ac ombwdsmyn), yn yr ail golofn o'r rhes sy'n cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y tabl yn is-adran (1), ar y diwedd mewnosoder "or Part 3 of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".

*Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22)*

19 Yn adran 68 (Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru), yn is-adran (3), yn lle "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005" rhodder "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".

20 Yn adran 70 (ymchwiliadau: darpariaethau pellach), yn is-adran (2)(b), yn lle "sections 13 to 15 and Part 2B of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005" rhodder "sections 18 to 20 and Part 6 of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".

*Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43)*

21 Yn adran 113 (cwynion ynghylch gofal iechyd), yn is-adran (4)(aa)—

(a) yn lle "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005" rhodder "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019";

(b) yn lle "section 2(3)" rhodder "section 3(3)".

*Deddf Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2006 (p.42)*

22 Yn adran 187 (gwasanaethau eirioli annibynnol), in is-adran (3)—

(a) yn y diffiniad o "health service body", yn lle "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (p.10)" rhodder "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019";

(b) yn y diffiniad o "independent palliative care provider", yn lle "section 34T of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005" rhodder "section 64 of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019";

(c) yn y diffiniad o "independent provider", yn lle "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005" rhodder "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".

*Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (p.30)*

23 Yn adran 18 (pŵer i ddatgelu gwybodaeth), yn is-adran (1)(b), ar y diwedd mewnosoder "or section 66 of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019 (cydweithio â phersonau a bennir)".

*Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32)*

24 Yn Atodlen 8 (Archwilydd Cyffredinol Cymru), ym mharagraff 17(8)(ba), yn lle "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005" rhodder "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".

*Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28)*

25 Yn adran 223A (gwasanaethau eirioli annibynnol), yn is-adran (10)—

(a) yn y diffiniad o "health service body", yn lle "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005" rhodder "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019";

(b) yn y diffiniad o "independent provider", yn lle "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005" rhodder "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019";

(c) yn y diffiniad o "Welsh health body", yn lle "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005" rhodder "the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".

### *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4)*

26 Yn adran 171 (cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol), yn is-adran (3)(a)—

(a) yn lle "Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005" rhodder "Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019";

(b) yn lle "adran 2(3)" rhodder "adran 3(3)".

27 Yn adran 177 (rhoi ystyriaeth bellach i sylwadau), yn is-adran (4)(a)—

(a) yn lle "Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005" rhodder "Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019";

(b) yn lle "adran 2(3)" rhodder "adran 3(3)".

### *Deddf Diogelu Data 2018 (p.12)*

28 Yn Atodlen 2 (eithriadau etc o'r GDPR), ym mharagraff 10(2)(c)(iv), ar y diwedd mewnosoder "or Part 5 of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019".